# Polisi ymddygiad, disgyblaeth a lles disgyblion.

YSGOL GYMRAEG Y CWM

## 'Gwnewch y Pethau Bychain'

# Polisi ymddygiad, disgyblaeth a lles disgyblion.

**Amcanion a disgwyliadau**

Gosodir pwyslais mawr yn Ysgol Gymraeg y Cwm ar sicrhau safonau o ymddygiad da, ystyriaeth at eraill, cwrteisi a pharch. Yn yr ysgol disgwylir i ymddygiad disgyblion fod yn gydnaws â disgwyliadau cymuned yr ysgol gan adlewyrchu'r safonau a'r gwerthoedd sydd ymhlyg â'i Datganiad o Genhadaeth 'Gwnewch y Pethau Bychain' ynghyd ag amcanion yr ysgol.

Yr ydym am i bob aelod o gymuned yr ysgol deimlo y cânt eu gwerthfawrogi a'u parchu, a bod pob person yn cael ei drin yn deg ac yn dda. Rydym yn gymuned ofalgar, gyda'n gwerthoedd wedi eu hadeiladu ar ymddiriedaeth y naill at y llall a pharch tuag at bawb. Rhown bwyslais ar lais y disgybl a hawl bob plentyn i wrandawiad ac ymdriniaeth deg. Felly, mae polisi ymddygiad a disgyblaeth yr ysgol wedi ei gynllunio i gefnogi'r ffordd mae holl aelodau'r ysgol yn gallu byw a gweithio gyda'i gilydd mewn modd cefnogol ac ymatal rhag ymddygiad gwrth-gymdeithasol.

Mae'n anelu at hyrwyddo amgylchedd lle mae pawb yn teimlo'n hapus a diogel fod disgyblion yn cael cyfleoedd i gyfranogi mewn dysgu a'i fwynhau. Cred yr ysgol fod gan blant yr hawl i drefn a disgyblaeth i'w galluogi i weithio'n dawel ac yn ddiogel

Trwy hyn annogir disgyblion i fod yn aelodau cadarnhaol, cyfrifol a gynyddol annibynnol o gymuned yr ysgol a'r gymdeithas ehangach.

Rydym wedi ymrwymo i weithredu y polisi ymddygiad hwn ar safle'r ysgol ac wrth ymgymryd â gweithgareddau oddi ar y safle.

Y Pennaeth gyda chymorth y staff sy'n gyfrifol am ddisgyblaeth, ymddygiad a lles disgyblion yr ysgol ac am sicrhau ymateb cadarnhaol i reolau'r ysgol.
**Yn ein hysgol mae yna bwyslais clir ar GANMOL a GWOBRWYO**

**Gweithredu'r polisi**

Er mwyn gweithredu'r polisi y mae gan yr ysgol nifer o reolau y disgwylir i ddisgyblion eu parchu. Mae'n fodd o sicrhau disgyblaeth ac ymddygiad cadarnhaol mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol tra'n galluogi pobl i gydweithio, dysgu a chanolbwyntio ar eu gwaith mewn awyrgylch hapus a chytun. Mae strategaethau Arfer Adferol yn rhan bwysig o bolisi disgyblaeth ac ymddygiad yr ysgol hon. Mae Arfer Adferol yn rhoi

cyfleoedd i ddisgyblion godi pryderon am ddigwyddiadau sy'n effeithio arnynt yn eu bywydau beunyddiol ac yn yr ysgol er mwyn i'w cyfoedion a staff fedru helpu datrys materion sy'n codi. Mae tystiolaeth yn dangos fod Arfer Adferol yn ffordd effeithiol o leihau gwrthdaro a gwella ymddygiad a disgyblaeth mewn ysgolion a chymdeithas.

**Rôl yr Athro Dosbarth**

Ar ddechrau bob blwyddyn academaidd bydd yr athrawes/ athro dd/dosbarth yn trafod rheolau'r ysgol/dosbarth gyda disgyblion. Trwy hyn, mae pob plentyn yn yr ysgol yn gwybod y safon o ymddygiad rydym yn disgwyl yn ein hysgol. Bydd y Pennaeth a'r athrawon yn defnyddio gwasanaethau dyddiol fel fforwm i atgyfnerthu rheolau ysgol a dosbarth drwy gyfrwng storiau crefyddol a moesol priodol.

Mae gan yr athrawon dosbarth yn ein hysgol ddisgwyliadau uchel oddi wrth y plant parthed ymddygiad ac maent yn ymdrechu i sicrhau fod yr holl blant yn gweithio i eithaf eu gallu.

Mae'r athrawes/athro dosbarth yn trin pob plentyn yn deg ac yn gweithredu'r cod dosbarth yn gyson. Mae athrawon yn trin pob plentyn yn eu dosbarth gyda pharch a dealltwriaeth.

Mae'r ysgol yn gwobrwyo ymddygiad da, gan ei bod yn credu bydd hyn yn datblygu ethos o garedigrwydd a chydweithrediad.

Rydym yn gwobrwyo plant am ymddygiad da mewn amrywiaeth o ffyrdd:

*Athrawon yn llongyfarch plant ac yn cydnabod ymddygiad da
*Gwobrwyo plant â sticeri clod
*Cyflwyno tystysgrif 'seren yr wythnos' i blentyn o bob dosbarth.
*Rydym yn dosbarthu teilyngdodau i blant, un ai am waith da cyson neu ymddygiad, neu i gydnabod ymdrech rhagorol neu weithred o garedigrwydd yn yr ysgol.
*Caniatau 'amser aur' sef cyfnod o amser rhydd o dan orucwyliaeth.

Os yw plentyn yn camymddwyn yn y dosbarth, mae'r athro dosbarth yn delio gyda'r sefyllfa mewn modd teg a phriodol. Annogir disgyblion sydd yn cam-ymddwyn i ystyried eu gweithredoedd a'u heffaith ar eraill. Annogir y disgybl i fyfyrio'n dawel dros ei g/weithredoedd ac i wneud synnwyr o'r sefyllfa e.e. trwy ddefnydd o'r 'mat meddwl' - lle tawel cydnabyddedig oddi fewn i'r dosbarth/ar yr iard. Byddwn ar bob achlysur yn ceisio deall beth

oedd achos yr ymddygiad ac yn gweithredu strategaethau Arfer Adferol. Yn aml iawn ni fydd angen cosb, ond os ydy'r plentyn yn haeddu cosb fe ddylai'r gosb adlewyrchu difrifwch y weithred e.e. athro yn hysbysu'r Pennaeth am y camymddwyn a'r Pennaeth yn siarad â'r disgybl os yw'r ymddygiad yn peri pryder mawr. Ni ddylid cosbi plentyn drwy ei atal rhag ymgymryd â phwnc cwricwlaidd e.e. Addysg Gorfforol.

Os yw ymddygiad plentyn yn peryglu diogelwch eraill, mae'r athrawes/athro dosbarth yn atal y weithgaredd ac yn cysylltu â'r Pennaeth.

Mae'r athrawes/athro dosbarth yn ymgynghori â'r cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol os yw ymddygiad yn peri gofid, yn parhau ac yn amharu ar eraill dros gyfnod o amser. Bydd yr athro dosbarth hefyd yn cysylltu gyda'r rhiant os oes pryderon ynglŷn ag ymddygiad neu les plentyn. Gellir defnyddio llyfr cyswllt Cartref/Ysgol penodol os yn briodol i hysbysu rhieni am ymddygiad disgybl.
Bydd yr athro dosbarth mewn cydweithrediad â'r disgybl, CADY a chyda caniatad rhieni yn llunio Cynllun Addysg Unigol os yw hynny'n briodol ac yn gosod strategaethau mewn lle i helpu gwella'r ymddygiad.

Os nad yw'r ymddygiad yn gwella bydd y CADY yn cysylltu ag asiantaethau allanol am arweiniad, cyngor a chefnogaeth. Os yw'r ymddygiad yn parhau i beri pryder ar lefel Gweithredu Ysgol bydd yr athro dosbarth mewn ymghyngoriad a'r CADY yn awgrymu symud at y cam nesaf sef Gweithredu Ysgol +. Bydd angen caniatad rhieni i wneud hyn.

Os oes unrhyw achosion o ymddygiad gwrth-gymdeithasol, mae'r Pennaeth/athrawon dosbarth yn trafod y rhain gyda'r ysgol/dosbarth cyfan yn ystod amser gwasanaeth neu mewn sesiynau trafod yn y dosbarth.

Os yw plentyn yn bygwth, brifo neu fwlian plentyn arall, mae'r athro dosbarth yn cofnodi'r digwyddiad. Os oes plentyn yn parhau i gamymddwyn yn rheolaidd ac os na fydd plentyn yn ymateb wedi ymyrraeth pellach gan y Pennaeth, gwahoddir y rhieni i'r ysgol i drafod y mater ac i gytuno ar ffordd ymlaen i'r perwyl o wella ymddygiad.

**Nid yw'r ysgol yn goddef bwlian o unrhyw fath. Os rydym yn canfod fod gweithred o fwlian neu frawychiad wedi cymryd lle, rydym yn gweithredu'n syth i atal unrhyw ddigwyddiadau pellach o ymddygiad o'r fath. Rydym yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau fod pob plentyn yn gallu mynychu'r ysgol heb ofn.**

Mae holl aelodau'r staff yn ymwybodol o'r rheolau parthed y defnydd o rym gan athrawon. Mae staff ond yn ymyrryd yn gorfforol i rwystro plant neu i atal niwed i blentyn, neu os yw plentyn mewn perygl o niweidio'i hun.

**Rôl y Pennaeth**

Mae'n gyfrifoldeb ar y Pennaeth i weithredu polisi ymddygiad yr ysgol yn gyson ar draws yr ysgol ac i adrodd i'r llywodraethwyr, yn ôl y gofyn, ar effeithiolrwydd y polisi. Y Pennaeth sydd hefyd yn gyfrifol am sicrhau iechyd, diogelwch a lles pob plentyn yn yr ysgol.

Mae'r Pennaeth yn cefnogi'r staff trwy weithredu'r polisi, gosod y safonau ymddygiad, a chefnogi'r staff wrth iddynt weithredu'r polisi.

Mae'r Pennaeth yn cadw cofnod o bob achos difrifol o gamymddwyn a adroddwyd.

Mae'r Pennaeth yn gyfrifol am roi gwaharddiad tymor penodol i blant unigol am weithredoedd difrifol o gamymddwyn. Mae'r Pennaeth yn gallu gwahardd plentyn yn barhaol yn dilyn gweithredoedd difrifol iawn neu barhaus o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Dim ond ar ôl hysbysu llywodraethwyr yr ysgol y cymerir y camau yma.

**Rôl y Rhieni**

Mae'r ysgol yn cydweithio gyda'r rhieni, er mwyn i'r plant dderbyn negeseuon cyson am sut i ymddwyn adref ac yn yr ysgol.
Rydym yn disgwyl i rieni gefnogi dysgu eu plentyn, ac i gydweithio gyda'r ysgol, fel y'i gosodir yn y cytundeb cartref/ysgol, ac rydym yn hysbysu rhieni'n syth os oes gennym bryderon am les neu ymddygiad eu plentyn.
Os oes rhaid i'r ysgol ddefnyddio sancsiynau rhesymol i gosbi plentyn, rydym yn disgwyl i'r rhieni i gefnogi gweithredoedd yr ysgol. Os oes gan rieni unrhyw bryderon am y modd mae eu plentyn wedi ei drin, i gychwyn, dylid cysylltu gyda'r athro dosbarth ac yna'r Pennaeth. Os yw'r pryder yn parhau, dylid cysylltu gyda Chorff Llywodraethu yr ysgol. Os nad yw'r trafodaethau yma'n gallu datrys y broblem, gellid gweithredu'r broses cwynion ffurfiol.

**Rôl y Corff Llywodraethu**

Mae'r Corff Llywodraethu yn gyfrifol am osod y canllawiau cyffredinol yma ar safonau disgyblaeth ac ymddygiad, ac o adolygu eu heffeithiolrwydd.
Mae'r Corff Llywodraethu yn cefnogi'r Pennaeth trwy lynu at y canllawiau

yma. Mae gan y Pennaeth awdurdod o ddydd-i-ddydd i weithredu polisi'r ysgol ar ymddygiad a disgyblaeth.

**Gwaharddiadau Cyfnod Penodol a Pharhaol**

Nid ydym yn dymuno gwahardd unrhyw blentyn o'r ysgol, ond ar brydiau, gall hyn fod yn angenrheidiol.
Dim ond y Pennaeth (neu'r Pennaeth gweithredol) sydd â'r hawl i wahardd unrhyw blentyn o'r ysgol. Mewn achosion eithafol a sefyllfaoedd eithriadol, gall y Pennaeth wahardd plentyn yn barhaol.

Os yw'r Pennaeth yn gwahardd plentyn, mae'n hysbysu'r rhieni yn syth, gan roi'r rhesymau am y gwaharddiad. Ar yr un pryd, mae'r Pennaeth yn ei wneud yn eglur i'r rhieni eu bod yn gallu, pe ddymunant, apelio yn erbyn y penderfyniad i'r Corff Llywodraethu. Mae'r ysgol yn hysbysu'r rhieni sut i wneud apêl o'r fath.

Mae'r Pennaeth yn hysbysu'r ALl a'r Corff Llywodraethu am unrhyw waharddiad parhaol, ac am unrhyw waharddiad tymor penodol y tu hwnt i bum diwrnod mewn unrhyw un tymor.

Pan fod panel apêl yn cwrdd i ystyried gwaharddiad, maent yn ystyried yr amgylchiadau y gwaharddwyd y plentyn, yn ystyried unrhyw gynrychiolaeth gan rieni a'r ALl ac yn ystyried a ddylai'r plentyn gael ei adfer.

Os yw panel apêl y llywodraethwyr yn penderfynu dylid adfer y plentyn, mae'n rhaid i'r Pennaeth gydymffurfio gyda'r dyfarniad hwn.

**Monitro ac Adolygu**

Bydd y Pennaeth yn monitro effeithiolrwydd y polisi yma'n rheolaidd.
Mae'r ysgol yn cadw amrywiaeth o gofnodion parthed achosion o gamymddwyn. Mae'r athrawon dosbarth yn cofnodi mân ddigwyddiadau yn y dosbarth. Mae'r Pennaeth yn cofnodi'r achosion hynny lle caiff plentyn ei anfon ato oherwydd ymddygiad gwael.

Bydd Pennaeth yn cadw cofnod o unrhyw blentyn gaiff ei wahardd am gyfnod penodol, neu ei wahardd yn barhaol.

Mae'r Corff Llywodraethu yn gyfrifol am fonitro cyfradd y gwaharddiadau ac i sicrhau y gweithredir polisi'r ysgol yn deg a chyson.

Gall y Corff Llywodraethu adolygu'r polisi os yw'r llywodraeth yn cyflwyno rheolau newydd, neu os yw'r Corff Llywodraethu yn derbyn argymhellion ar sut y gellid gwella'r polisi.

**Cymeradwyd/Adolygwyd y polisi yma gan y Pennaeth a'r Llywodraethwyr ar y**
***This policy was approved by the Headteacher and Governors on***

……………………………………………………..

Llofnod y Pennaeth ………………………………………………………………………………
*Headteacher's signature*

Dyddiad: …………………………………………………………………………………………
*Date*

Llofnod Cadeirydd y Llywodraethwyr: ………………………………………………
*Chair of Governors' signature*

Dyddiad: …………………………………………………………………………………………
*Date*